**Cyfarfod y Trydydd Sector ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a'r Gweinidog Dysgu Gydol Oes a'r Iaith Gymraeg**
**Dydd Iau 2 Mawrth 2017**
**Ystafell Gynadledda 2A.14, Tŷ Hywel**

**Yn bresennol:**

**Llywodraeth Cymru:** Kirsty Williams AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg; Alun Davies AC, Gweinidog Dysgu Gydol Oes a'r Iaith Gymraeg; Claire Rowlands, Dirprwy Gyfarwyddwr Cwricwlwm (CR), Richard Harris (RH), Pennaeth Cyflenwi, Kara Richards, Pennaeth Ymgysylltu Ieuenctid (KR); a Brian Herbert, Busnes y Llywodraeth (BH) (yn cymryd nodiadau).

**Trydydd Sector:** Paul Glaze, CWYVS/Ieuenctid (PG); Catrin James, Urdd Gobaith Cymru (CJ); Uzo Iwobi, Cynghrair BME /Lleiafrifoedd Ethnig (UI); Ann Woods, WACVC/Cyfryngwyr Lleol a Rhanbarthol (AW); Rebecca Falvey, BiTC (RF); y Parch. Dr. Phillip Manghan, Cyngor Rhyng-ffydd Cymru (PM); Lynne Hill, Plant yng Nghymru (LH); Martin Pollard, WCIA (MP); Kathryn Robson, Addysg Oedolion Cymru (KR, ALW); MaryAnn Hale, Cyfnewid UNA (MAH) Victoria Branciamore, Ymddiriedolaeth y Tywysog Cymru (VB) a Judith Stone, WCVA (JS).

**Ysgrifennydd y Cabinet –** Croesawodd y Trydydd Sector i'r cyfarfod gan nodi bod dwy eitem sylweddol ar yr agenda. Cafwyd cyflwyniadau o gylch y bwrdd. Yr eitem agenda gyntaf yw'r papur ar y cwricwlwm newydd i Gymru. Mae newidiadau mawr i drefniadau'r cwricwlwm yng Nghymru ar y gweill. Mae'r gwaith i ddatblygu Meysydd Dysgu a Phrofiad yn symud ymlaen yn dda gyda tharged o baratoi'r cwricwlwm i'w beilota o 2018 ymlaen ac yn orfodol i bob ysgol erbyn 2021.

**JS –** Mae diddordeb gan y Trydydd Sector yn y ffordd mae ysgolion yn gwreiddio cydraddoldeb, crefydd a diogelu yn y cwricwlwm newydd a datblygu pobl ifanc yn ddinasyddion byd-eang Cymru a'r Byd.

**Ysgrifennydd y Cabinet –** Mae'r Trydydd Sector eisoes yn ymwneud â grwpiau ymgynghorol Meysydd Dysgu a Phrofiad sy'n gweithio'n eang gydag arbenigwyr wrth i'r fframweithiau gael eu datblygu.

**CR –** Mae Llywodraeth Cymru yn dechrau ar y gwaith o ymgysylltu â grwpiau Meysydd Dysgu a Phrofiad gan gofio y bydd y darlun mawr yn eu hannog i edrych ar ymglymiad y Trydydd Sector.

**KR –** Mae'r Trydydd Sector yn ymgysylltu â'r consortia, ambell waith nid yw'r cydbwysedd ymgysylltu'n iawn o ran ymgysylltu â Phenaethiaid gan fod ysgolion yn llefydd prysur.

**JS –** Awgrymodd y gallai ymgysylltu â Chyngor Partneriaeth y Trydydd Sector fod yn fan cychwyn da.

**MP -** Yn bendant byddai'n hoffi ymgysylltu wrth i'r Maes Dysgu a Phrofiad ar gyfer dinasyddion moesegol a gwybodus Cymru a'r byd gael ei ddatblygu.

**UI -** Crybwyllodd waith gydag Ysgol Uwchradd Llanrhydian ynghylch hanes du a chyfraniadau pobl ddu i hanes a diwylliant lleol. Ceir tystiolaeth o gynnydd mewn sylwadau atgas ers pleidlais Brexit ac mae Penaethiaid yn ei chael yn anodd ymdopi â digwyddiadau o'r fath. Mae rhywfaint o waith wedi'i wneud gan Show Racism the Red Card sy'n darparu tystiolaeth bod llawer o athrawon yn teimlo nad ydyn nhw wedi derbyn hyfforddiant digonol i ymdrin â'r sefyllfaoedd hyn. Dylid cael agwedd Cymru-gyfan at ryddhau'r wlad o hiliaeth a chasineb.

**Ysgrifennydd y Cabinet -** Rwyf i'n gyfarwydd â gwaith Show Racism the Red Card ac yn ddiolchgar am y gwaith maen nhw'n ei wneud. Cytuno bod diffyg hyder ymhlith ymarferwyr a'r angen am ddigwyddiadau hyfforddi, efallai wedi'u llunio ar y cyd gyda'r proffesiwn. Nid mater o wersi ABCh yn unig yw hyn ond mwy am werthoedd yr ysgol gyfan a sut rydych chi'n hyrwyddo'r neges gadarnhaol honno.

**PM –** Byddai grwpiau crefyddol am gymryd rhan hefyd.

**CR –** Mae rhai sefydliadau eisoes yn ymgysylltu. Mae'n ymwneud mwy â'r meddwl ynghylch y materion hyn a newid hynny'n ymarferol.

**PG –** Mae'n beth da i gyrff trydydd sector ymgysylltu wrth i'r cwricwlwm ddatblygu, yn enwedig ennyn diddordeb pobl ifanc yn y broses ddemocrataidd. Cafwyd trafodaethau cadarnhaol gyda swyddogion am ymgysylltu gyda Her Ysgolion Cymru a byddai'n fuddiol atgynhyrchu'r rhain mewn meysydd eraill yn y dyfodol. Oes unrhyw beth i'w ystyried o ran ymgysylltu â Chyngor y Gweithlu Addysg i gyrff trydydd sector?

**Ysgrifennydd y Cabinet –** Byddai hynny yn bennaf yn ymwneud â datblygiad proffesiynol parhaus wrth i'r Pasbort Dysgu Proffesiynol gael ei ddatblygu.

**JS –** Ceir her o ran y nifer fawr o sefydliadau sy'n rhan o'r gwaith datblygu'r cwricwlwm.

**Ysgrifennydd y Cabinet –** Sut mae'r Trydydd Sector yn gweld ei rôl wrth ymgysylltu â Chyngor y Gweithlu Addysg?

**CJ -** Yr anhawster i gyrff Trydydd Sector yw peidio â gwybod ble i ymgysylltu ac ar ba lefel, boed gyda Llywodraeth Cymru, llywodraeth leol, consortia neu ysgolion.

**CR –** Mae'n debygol y bydd rôl o ran e-ddysgu wrth i hynny ddatblygu ac achrediad o fewn a'r tu allan i'r ysgol.

**Ysgrifennydd y Cabinet -** Ydy, mae'n bosibl cynnwys y Trydydd Sector wrth ddatblygu hyn. Mae'r Alban wedi gwneud datblygiadau tebyg gyda Gwaith

Ieuenctid a gyda'r plant hynny nad oes ganddyn nhw gyfleoedd y tu allan i'r ysgol.

**JS –** A all Llywodraeth Cymru gynorthwyo'r Trydydd Sector i ymgysylltu gyda Chyngor y Gweithlu Addysg i ddatblygu deunyddiau ar-lein?

**CR –** Gall swyddogion drefnu cyfarfod rhwng y Trydydd Sector a Chyngor y Gweithlu Addysg.
**Cam gweithredu 1:- Swyddogion i drefnu cyfarfod rhwng y Trydydd Sector a Chyngor y Gweithlu Addysg.**

**MAH -** Efallai fod mater i'w drafod o ran cydnabod ac achredu gweithgareddau gwirfoddol mae pobl ifanc yn ymgymryd â nhw.
**Ysgrifennydd y Cabinet –** Mae atebolrwydd yn gwestiwn, efallai fod angen newid y ffordd mae ysgolion yn atebol, mae'n fwy na TGAU yn unig, ac mae angen cael cydraddoldeb neu gydnabyddiaeth i weithgareddau galwedigaethol a gweithgareddau eraill gan bobl ifanc. Mae hefyd yn ymwneud ag ennill calon ac enaid rhieni, er enghraifft, ynghylch gwerth Bagloriaeth Cymru.

**PM –** Roedd yn bwysig bod cyfle ar gael i bawb. Ai llywodraethu yw'r allwedd? Cafwyd ymgynghoriad diweddar ar ddiwygio llywodraethwyr ysgol a gallai'r Trydydd Sector ddod â gwerth ychwanegol i'r agenda hwn.

**Ysgrifennydd y Cabinet –** Yr allwedd yw adeiladu capasiti mewn cyrff llywodraethu ysgolion a rhaid iddyn nhw fod yn deg. Er enghraifft, mae'r Grant Amddifadedd Disgyblion wedi'i ddefnyddio'n dda gan rai ysgolion ond gellid gwneud gwelliannau drwy gronni adnoddau ymhlith clystyrau o ysgolion. Gallai hyn olygu bod ysgolion nid yn unig yn rhannu ymarfer gorau gyda'u cymheiriaid ond hefyd yn cronni cyllid i wneud mwy o effaith.

**UI –** Efallai y gallai Llywodraeth Cymru ystyried a ddylid cael mwy o amrywiaeth ymhlith y gronfa o lywodraethwyr a hefyd a ellid cael cyfraniad strategol gan BAME yn y Grwpiau Rhanddeiliaid Strategol.

**CR -** Mae angen i Lywodraeth Cymru adolygu ac ystyried aelodaeth y Grwpiau Rhanddeiliaid Strategol a chynrychiolaeth y Trydydd Sector.
**Cam gweithredu 2:- Llywodraeth Cymru i adolygu ac ystyried aelodaeth y Grwpiau Rhanddeiliaid Strategol a chynrychiolaeth y Trydydd Sector.**

**Ysgrifennydd y Cabinet -** Mae angen hefyd ystyried amrywiaeth y gweithlu addysgu yng Nghymru. Ceir pryder nad yw addysgu'n cael ei weld fel dewis gyrfa i rai grwpiau ac efallai y gellid defnyddio liferi fel cyflog ac amodau unwaith i hynny gael ei ddatganoli. Yr eitem agenda nesaf yw goblygiadau Brexit a'r portffolio Addysg.

**JS -** Mae gan y Trydydd Sector ddiddordeb i weld sut y gallwn ni gynorthwyo athrawon i ymdopi ag achosion o hiliaeth a throseddau casineb sy'n codi o Brexit a beth i'w wneud ar ôl Erasmus+ o ran dysgu rhwng cymheiriaid.

**Ysgrifennydd y Cabinet -** Rwyf i'n eistedd ar Is-bwyllgor o'r Cabinet ar Drefniadau Pontio UE, gyda'r pwyslais ar y goblygiadau i'r sector ôl-orfodol yn y Papur Gwyn - Sicrhau Dyfodol Cymru. Ceir goblygiadau ariannol difrifol i'r sectorau Addysg Uwch ac Addysg Bellach yn benodol. Mae Cymru wedi gweld twf sylweddol yn y nifer o staff a myfyrwyr rhyngwladol dros y blynyddoedd diweddar ac mae'r buddiannau economaidd maen nhw'n eu cyfrannu yn sylweddol. Y rhagamcanion yw y bydd y nifer o fyfyrwyr rhyngwladol yn parhau i dyfu, fodd bynnag roedd hynny cyn bod canlyniad y refferendwm yn wybyddus. Rwyf i'n glir mai'r neges gan Lywodraeth Cymru yw bod croeso yn dal i fod i staff a myfyrwyr rhyngwladol yng Nghymru. Mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos bod cwymp sylweddol eisoes yn y nifer o geisiadau gan fyfyrwyr rhyngwladol ac rydym ni'n gwahaniaethu oddi wrth Lywodraeth y DU o ran cynnwys myfyrwyr a staff AU mewn ffigurau mewnfudo. Rwyf i hefyd yn bryderus y caiff y TEF ei ddefnyddio i benderfynu pa SAUau a gaiff recriwtio myfyrwyr rhyngwladol, fydd yn cael effaith sylweddol ar nifer o sefydliadau yng Nghymru. Rydym ni'n ceisio sicrhau cyfranogiad parhaus yn Horizon 2020 ac Erasmus+ ar ôl Brexit. Mae cynigion Diamond hefyd yn cynnwys peilota myfyrwyr o Gymru'n astudio ar draws y byd ac mae fy swyddogion yn datblygu opsiynau i fi eu hystyried ar hynny. Mae Brexit yn sicr wedi gosod her a does dim gwarant yn dod gan Lywodraeth y DU ar ganlyniad y trafodaethau.

**Y Gweinidog Dysgu Gydol Oes a'r Iaith Gymraeg –** Mae canlyniad y refferendwm wedi cael effaith ofnadwy ac mae angen i ni wneud rhywfaint o waith ynghylch y twf mewn hiliaeth ers Brexit. Mae'n bwysig ein bod yn cwblhau'r rhaglenni UE cyfredol ac yna edrych i gyflawni ar flaenoriaethau drwy ddod â ffrydiau cyllido at ei gilydd. Nid yw'r rhagolwg cyllidol yn dda a bydd angen edrych ar sut rydym ni'n rhoi'r gorau i wneud pethau wrth edrych i'r dyfodol.

**Ysgrifennydd y Cabinet –** Ni fydd Llywodraeth y DU yn gwarantu y bydd dinasyddion yr UE yma ymhen dwy flynedd a gallai hynny effeithio ar addysgu a dysgu.

**Y Gweinidog Dysgu Gydol Oes a'r Iaith Gymraeg -** Cafwyd cynnydd mewn siofinyddiaeth a hiliaeth ysbeidiol mewn gwahanol rannau o'n bywydau. Sut mae ymateb i hynny? Oes unrhyw beth y gallwn ni ei wneud i siapio'r hyn mae ysgolion yn ei wneud ynghylch y cwricwlwm a dinasyddiaeth fyd-eang?

**Ysgrifennydd y Cabinet -** Mae hyfforddi athrawon yn broblem o ran Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon a datblygiad proffesiynol parhaus. Sut mae ymarferwyr yn delio â dioddefwyr a chyflawnwyr hiliaeth? Mae rhywfaint o ddeunyddiau hyfforddi ar gael i weithwyr cymdeithasol, ond nid yw hyn yn estyn i athrawon ac mae angen i ni sicrhau ei fod ar gael ar gyfer hyfforddiant athrawon.

**LH –** Dylid estyn yr hyfforddiant hefyd i gwmpasu gweithwyr gwirfoddol a gweithwyr ieuenctid.

**Ysgrifennydd y Cabinet –** Yn wir, a dylanwad rhieni ac mewn lleoliadau gwahanol.

**MP -** Mae ysgolion yn rhoi gwerth ar drafodaethau ystyrlon am ddinasyddiaeth fyd-eang yn gysylltiedig â meddwl beirniadol ac mae nifer o brosiectau Erasmus+ yn helpu i gyflawni hyn.

**Ysgrifennydd y Cabinet –** Yr allwedd fydd cyflwyno dull cyflawn yn hytrach na rhestr hir o flaenoriaethau.

**PG –** Mae dulliau y gellid eu defnyddio i ymgysylltu'n fwy effeithiol gyda dinasyddiaeth fyd-eang, er enghraifft mae pobl ifanc yn alluog iawn gyda chyfryngau cymdeithasol a gallai hwn fod yn gyfle i fanteisio ar hynny.

**CR –** Mae'r cwricwlwm newydd yn cofleidio'r agwedd hon, ond mae'r cwestiwn yn parhau ynghylch beth rydym ni'n ei wneud nawr i fynd i'r afael â hiliaeth yn y dosbarth.

**UI –** Hysbysodd nad yw cyllid gan Gomisiynydd yr Heddlu bellach yn cynnwys hiliaeth gan ganolbwyntio yn lle ar ddefnyddio cyffuriau ac ati. Gallai fod yn bosibl ymgysylltu ag ysgolion drwy ddiwrnodau diwylliannol Hanes Du ym mis Hydref a rhoi ffocws ar hiliaeth yn y rheini.

**Ysgrifennydd y Cabinet –** Diolchodd i'r Trydydd Sector am gyfarfod â hi a'r Gweinidog Dysgu Gydol Oes a'r Iaith Gymraeg.